Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Maes-y-Coed
# Heol Hendre
# Bryn-coch
# Castell-nedd
# SA10 7TY

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/03/2015**

## Cyd-destun

Ysgol arbennig awdurdod lleol yw Ysgol Maes-y-Coed, a gynhelir gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot.  Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac un deg naw oed.  Mae 89 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd.

Agorwyd yr ysgol yn 2007 ac estynnwyd ei hamrediad oedran i gynnwys disgyblion o oedran ysgol uwchradd yn 2012.  Mae'r gwasanaeth allymestyn ar gyfer namau amlsynhwyraidd ar gyfer rhanbarth de orllewin Cymru a thîm pontio'r awdurdod lleol wedi'u lleoli yn yr ysgol.

Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.  Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, anawsterau dysgu difrifol ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig.  Mae gan lawer ohonynt anawsterau cyfathrebu, ymddygiadol neu synhwyraidd cysylltiedig, ac mae gan nifer sylweddol ohonynt ofynion gofal iechyd penodol.

Saesneg yw prif iaith bron pob un o'r disgyblion.  Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith gartref.  Ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol sy'n mynychu'r ysgol.  Mae gan dri y cant o'r disgyblion statws 'plentyn sy'n derbyn gofal' (PDG) ac mae tua 36% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae'r ysgol yn cynnwys ardaloedd arbenigol fel pwll hydrotherapi a gerddi synhwyraidd.  Yn 2012, agorwyd bloc newydd i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn niferoedd y disgyblion.

Agorwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2009.  Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers pum mlynedd.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Maes-y-Coed yn dda oherwydd:

- Mae disgyblion yn cyflawni safonau da
- Mae staff yn cofnodi camau bach iawn yng nghynnydd disgyblion ac yn adeiladu'n dda ar hyn
- Caiff profiadau dysgu eu gweddu'n dda i anghenion y disgyblion
- Caiff disgyblion ofal, cymorth ac arweiniad da
- Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu'n effeithiol

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn Ysgol Maes-y-Coed yn dda oherwydd:

- Ceir gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n cael ei deall yn llawn gan bob un o'r staff a'r llywodraethwyr a'i rhannu ganddynt
- Mae arweinyddiaeth wedi'i dosbarthu'n dda
- Mae gan yr ysgol brosesau hunanarfarnu sefydledig
- Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf, sy'n cael effaith gadarnhaol ar y lles a'r deilliannau ar gyfer disgyblion
- Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda ac yn darparu gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod darpariaeth therapïau yn bodloni anghenion disgyblion yn unol â'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn eu datganiadau anghenion addysgol arbennig

A2 Gwella'r defnydd o ddata i lywio cynllunio strategol

A3 Gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion weithio ochr yn ochr â'u cyfoedion mewn ysgolion a cholegau prif ffrwd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar draws yr ysgol a thros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u hanghenion, eu galluoedd a'u cyrhaeddiad blaenorol.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr ysgol gyda chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau mewn perfformiad cyffredinol dros gyfnod oherwydd amrediad eang anghenion addysgol arbennig disgyblion.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched, y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r disgyblion hynny sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda, yn enwedig pan roddir ciwiau ac awgrymiadau priodol iddynt. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r targedau dysgu a nodwyd yn eu cynlluniau addysgol unigol (CAUau).

Mae disgyblion rhwng 14 ac 19 oed yn ennill cymwysterau perthnasol i gefnogi byw yn annibynnol ac yn symud ymlaen yn llwyddiannus i addysg barhaus neu ddarpariaeth gwasanaeth dydd wedi iddynt adael yr ysgol. Mae'r cymwysterau hyn yn cynnwys Her Trosglwyddo ASDAN ac unedau o ddyfarniad medrau cenedlaethol OCR ar lefel cyn-mynediad i lefel 1.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu sy'n briodol i'w hanghenion a'u gallu. Er enghraifft, mae disgyblion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn gwneud dewisiadau ac yn cyfleu eu hanghenion yn effeithiol gan ddefnyddio system cyfnewid lluniau. Mae disgyblion ag anghenion mwy cymhleth yn defnyddio amrywiaeth o synau ac ystumiau i gyfleu dewis ac ymateb i gwestiynau.

Mae disgyblion ag anghenion mwy cymhleth yn defnyddio technoleg gynorthwyol yn dda i gyfathrebu, gwneud dewisiadau a datblygu medrau byw yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn defnyddio switshis i weithredu offer mewn gwersi medrau bywyd. Pan fo'n briodol, mae disgyblion yn defnyddio cymhorthion cyfathrebu allbwn llais ac yn symud o gwmpas yr ysgol yn annibynnol gan ddefnyddio cadeiriau wedi'u pweru.

Mae disgyblion mwy abl yn cyfathrebu'n dda ar lafar. Gwnânt gynnydd cyson o ran datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu ac mae ychydig iawn ohonynt yn darllen ar goedd yn hyderus. Mae'r disgyblion hyn yn defnyddio byrddau gwyn rhyngweithiol i adnabod geiriau, nodi synau cychwynnol neu ysgrifennu ar ben eu henwau. Defnyddiant gyfrifiaduron llechen yn effeithiol i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd da mewn datblygu eu medrau rhifedd. Maent yn adio a thynnu rhifau i 10, yn gwybod gwerth darnau arian ac yn gallu dweud yr amser.  Mae disgyblion hŷn yn cymhwyso'r medrau hyn yn dda wrth weithio yn y bistro yn yr ysgol.

Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill y medrau sydd eu hangen arnynt i gynyddu eu hannibyniaeth, gwella'u gwaith a chyfrannu'n effeithiol at fywyd ehangach yr ysgol.

Pan fo'n briodol, mae disgyblion hŷn yn ennill dealltwriaeth o fyd gwaith trwy leoliadau gwaith yn y gymuned ac ymweliadau â siopau a busnesau lleol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn Cymraeg mewn perthynas â'u hanghenion a'u cefndir ieithyddol.  Maent yn deall cyfarchion Cymraeg ac yn rhoi atebion syml yn Gymraeg pan fyddant yn gallu gwneud hynny.  Mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o agweddau ar ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

**Lles:  Da**

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.  Maent yn deall sut i gadw'n iach ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o ymarferion, er enghraifft nofio, athletau a gymnasteg.  Mae disgyblion yn datblygu eu medrau tîm yn effeithiol trwy chwaraeon fel cystadlaethau rygbi a boccia.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac maent yn ymgymryd yn dda â thasgau.  Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol.  Mae lefelau presenoldeb disgyblion yn dda, heblaw pan fyddant yn cael cyfnodau o salwch o ganlyniad i'w hanghenion cymhleth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau cymdeithasol da, er enghraifft wrth siarad â staff a chyfarch ymwelwyr.  Mae disgyblion yn cydnabod yr angen i wisgo'n briodol, er enghraifft wrth fynd ar brofiad gwaith, ymgymryd â gweithgareddau ailgylchu neu fynychu dawns flynyddol yr ysgol.  Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau bywyd pwysig trwy ymgymryd â chyfrifoldebau amrywiol yn y gymuned, er enghraifft cynnal cyngherddau ysgol neu weini byrbrydau yn ystod boreau coffi.  Mae aelodau o'r côr yn mwynhau cymryd rhan mewn perfformiadau lleol.

Mae disgyblion yn symud o gwmpas yr ysgol gydag annibyniaeth gynyddol.  Mae disgyblion mwy abl yn cymryd cyfrifoldeb am gasglu cofrestri a chynorthwyo disgyblion iau o amgylch yr ysgol.

Mae disgyblion hŷn yn dangos eu bod yn cymhwyso medrau gwaith yn dda.  Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau menter fel paratoi a gwerthu addurniadau Nadolig.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol wedi dylanwadu'n llwyddiannus ar benderfyniadau ynghylch yr amrywiaeth o brydau iach, apwyntiadau staff a phrynu offer awyr agored.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ddealltwriaeth glir o anghenion disgyblion ac mae'n darparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer disgyblion sy'n berthnasol i bob unigolyn. Mae hyn yn cynnwys pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, opsiynau galwedigaethol ac ystod o weithgareddau oddi ar y safle, er enghraifft ymweliadau â busnesau a mannau o ddiddordeb lleol. Mae'r cwricwlwm amrywiol hwn yn gwella profiadau dysgu disgyblion.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o strategaethau priodol i gefnogi anghenion cyfathrebu amrywiol a chymhleth y disgyblion. Mae hyn yn eu helpu i ennill y medrau sydd eu hangen arnynt i fanteisio ar y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion hŷn ennill cymwysterau perthnasol a medrau yn seiliedig ar waith sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd yn y dyfodol. Cyn y cyfnod trosglwyddo, caiff disgyblion mwy abl gyfle i ddilyn cyrsiau mewn colegau lleol.

Mae gan yr ysgol bolisi a chynlluniau clir sy'n hyrwyddo datblygiad medrau ar draws y cwricwlwm. Caiff medrau eu hymgorffori'n dda trwy gynlluniau gwaith manwl ac fe gânt eu monitro'n effeithiol gan gydlynwyr ac uwch reolwyr.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn unol â'u gallu trwy ymweliadau â mannau o ddiddordeb a chystadlaethau.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang trwy gysylltiadau sefydledig ag ysgolion yn Lloegr, Gwlad Pwyl a Thwrci. Mae hyn wedi ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'r byd ehangach.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn dda. Er enghraifft, mae aelodau o'r cyngor eco yn gweithio i leihau'r defnydd o wastraff a dŵr ac yn helpu bywyd gwyllt lleol.

**Addysgu: Da**

Mae gan athrawon a chynorthwywyr addysgu berthnasoedd gweithio cryf gyda'r disgyblion y maent yn eu haddysgu a dealltwriaeth glir o'u hanghenion cymhleth. Mae pob gwers yn cynnwys amcanion dysgu clir sy'n cysylltu'n dda â thargedau unigol disgyblion. Caiff y targedau hyn eu rhannu yn y dosbarth gyda disgyblion, ar lefel briodol yn unol â'u gallu.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o ddulliau addysgu ac maent yn darparu gweithgareddau ysgogol sy'n ennyn diddordeb pob disgybl ac yn bodloni eu hanghenion unigol yn dda. Gwnânt ddefnydd da o wagle ac adnoddau i greu ardaloedd dysgu tawel. Mae hyn yn helpu disgyblion i ganolbwyntio ar eu gwaith a dysgu. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o brofiadau synhwyraidd gan gynnwys symbolau, ysgogiadau cyffyrddol ac amserlenni gweledol i alluogi disgyblion sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth i gymryd rhan yn y cwricwlwm.

Mae staff yn defnyddio cwestiynau'n ofalus i wirio dealltwriaeth disgyblion ac asesu'r cynnydd a wna disgyblion trwy gydol y wers. Maent yn rhoi adborth llafar adeiladol, sy'n cymell disgyblion ac yn eu helpu i weithio'n ddiwyd.

Mae athrawon yn defnyddio systemau asesu sefydledig i nodi cryfderau disgyblion a meysydd i'w gwella a chofnodi cynnydd disgyblion. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i lywio cynllunio'r cwricwlwm a gwersi a gosod targedau priodol ar CAUau disgyblion. Caiff targedau eu diweddaru'n rheolaidd.

Mae adroddiadau ar ddiwedd blwyddyn ac adolygiadau blynyddol yn rhoi gwybodaeth dda i rieni a gofalwyr am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol trwy raglen addysg bersonol a chymdeithasol gynlluniedig, gwasanaethau a gweithgareddau eraill. Mae staff yn gweithio'n sensitif gyda disgyblion i fynd i'r afael â'u hanghenion gofal personol.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae disgyblion a'u rhieni yn cael cymorth ac arweiniad buddiol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac wrth iddynt drosglwyddo i'r coleg neu wasanaethau eraill. Mae pob un o'r rhieni'n teimlo y cafodd eu plentyn gymorth i ymgynefino'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau cryf gydag asiantaethau allanol fel gwasanaethau cymdeithasol, paediatregwyr a nyrsys cymunedol, sy'n rhoi cymorth a chyngor defnyddiol i staff am anghenion disgyblion unigol. Mae athrawon yn defnyddio gwybodaeth gan wasanaethau arbenigol yn effeithiol i gynllunio ar gyfer disgyblion sydd â nam amlsynhwyraidd ac anhwylder y sbectrwm awtistig.

Mae gan yr ysgol arferion effeithiol i gynorthwyo anghenion cyfathrebu ac anghenion corfforol cymhleth disgyblion. Fodd bynnag, nid oes digon o therapi lleferydd ac iaith a therapi galwedigaethol i fodloni anghenion pob disgybl fel y nodwyd yn eu datganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd hynod gefnogol a chadarnhaol, sy'n helpu disgyblion i fagu hyder a hunan-barch.

Ceir ffocws cryf ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Caiff disgyblion o bob cefndir sydd â llawer o anghenion eu cynnwys yn llawn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol a'u trin â pharch ac urddas.

Mae'r ysgol fodern, a adeiladwyd yn bwrpasol, yn cynnig cyfleusterau gwych sy'n cael eu defnyddio'n eithriadol o dda i fodloni anghenion cymhleth ac amrywiol y disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnwys adnoddau da iawn gyda nifer o feysydd ac offer arbenigol, er enghraifft ystafelloedd synhwyraidd, pwll hydrotherapi a system lwybrau.

Mae'r ardaloedd addysgu a'r ardaloedd cymunedol yn olau a chroesawgar, gydag arddangosfeydd deniadol i ysgogi disgyblion. Defnyddir y tir y tu allan yn effeithiol iawn, ac fe geir gardd synhwyraidd ganolog ac ardaloedd diogel a saff y tu allan y gellir eu cyrraedd o bob ystafell ddosbarth. Caiff yr adeilad a'r tir eu cynnal a'u rheoli'n dda iawn.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n cael ei rhannu gan staff, llywodraethwyr, rhieni a gofalwyr. Ceir ffocws clir ar sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i gyflawni hyd eithaf ei allu. Ceir polisïau a chynlluniau cynhwysfawr sy'n canolbwyntio'n dda ar anghenion cymhleth y disgyblion. Mae gan arweinwyr a rheolwyr ddisgwyliadau uchel ac maent wedi creu ethos lle mae pob un o'r staff a'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae gan bob un o'r staff rolau a chyfrifoldebau clir. Mae'r ysgol yn datblygu ei harweinyddiaeth ddosbarthedig yn dda. Mae cydlynwyr pwnc yn cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu gwahanol feysydd y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth ar gyfer cydweithwyr ac adolygu gwaith pob dosbarth mewn perthynas â'u maes pwnc.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y ffordd y caiff yr ysgol ei rhedeg o ddydd i ddydd a materion strategol. Fodd bynnag, nid yw cofnodion y cyfarfodydd hyn yn fanwl ac nid yw hyn yn ei gwneud yn hawdd i uwch arweinwyr fonitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu.

Mae'r corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae wedi rhoi is-bwyllgorau priodol ar waith. Mae'r pennaeth yn gweithio'n agos gyda chadeirydd y llywodraethwyr ac mae'n darparu adroddiadau manwl ac addysgiadol i'r corff llywodraethol, gan gynnwys data perthnasol ar gyflawniad, ymddygiad a phresenoldeb. O ganlyniad, mae gan aelodau ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Maent yn darparu cymorth effeithiol i'r ysgol ac yn datblygu eu gallu i herio.

Ceir system sefydledig o reoli perfformiad ar gyfer pob aelod o staff. Mae gan athrawon a chynorthwywyr addysgu amcanion clir sy'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol. Mae'r broses rheoli perfformiad yn nodi ac yn mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi unigol ac ysgol gyfan yn effeithiol.

Mae’r ysgol yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda. Er enghraifft, mae’n gweithio’n effeithiol gydag ysgolion eraill i fynd i’r afael â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol brosesau hunanarfarnu sefydledig. Mae pob un o’r athrawon a’r cynorthwywyr addysgu yn cymryd rhan yn y broses trwy sesiynau cyfnos rheolaidd, wedi’u cynllunio. Mae’r ysgol yn defnyddio holiaduron blynyddol i ofyn am farn rhieni a gofalwyr. Mae’r disgyblion hynny sy’n gallu cyfrannu yn gwneud hynny trwy’r cyngor ysgol. Mae’r pennaeth yn rhannu a thrafod yr adroddiad hunanarfarnu gyda’r corff llywodraethol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw rhan y rhanddeiliaid eraill yn y broses.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn nodi cryfderau a meysydd i’w datblygu yn glir ac yn cysylltu’n effeithiol â chynllun gwella’r ysgol. Fodd bynnag, mae rhannau o’r adroddiad yn rhy ddisgrifiadol ac nid ydynt yn ddigon arfarnol.

At ei gilydd, mae’r cynllunio ar gyfer gwella’r ysgol yn effeithiol. Mae datblygiadau fel arweinyddiaeth ddosbarthedig well, rheoli ymddygiad ac ymyriadau ar gyfer cynorthwyo anghenion cyfathrebu unigol disgyblion wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion. Mae cynllun gwella’r ysgol yn ddogfen sydd wedi’i chyflwyno’n dda sy’n cynnwys cyfrifoldebau clir ar gyfer camau gweithredu a graddfeydd amser a chostau realistig. Mae’r uwch dîm arweinyddiaeth yn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun yn effeithiol.

Mae’r ysgol yn casglu ystod o ddata perthnasol, sy’n cael ei ddefnyddio’n effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion unigol dros gyfnod. Mae athrawon yn defnyddio’r data hwn a’u gwybodaeth drylwyr am anghenion a galluoedd disgyblion i lywio eu cynllunio. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei ddadansoddi y mae data i lywio cynllunio ar lefel strategol.

Ceir prosesau sefydledig ar gyfer arsylwi gwersi’n rheolaidd gan uwch reolwyr. Mae’r rhain yn cynnwys ffocws clir ar addysgu a dysgu. Caiff athrawon adborth llafar ac adroddiadau ysgrifenedig prydlon, sy’n cynnwys sylwadau defnyddiol ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae cyfleoedd ar gyfer cynorthwywyr addysgu lefel uwch i arsylwi gwersi ochr yn ochr ag uwch reolwyr yn eu helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o addysgu a dysgu effeithiol.

Caiff athrawon a chynorthwywyr addysgu gyfleoedd rheolaidd i rannu ac arsylwi arfer dda y tu allan i’r ysgol, trwy ymweliadau ag ysgolion eraill a chymryd rhan mewn cymunedau dysgu proffesiynol. Maent yn bwydo gwybodaeth yn ôl yn effeithiol trwy gyfarfodydd tîm ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol wedi datblygu ystod eang o bartneriaethau strategol effeithiol sy’n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae cysylltiadau effeithiol gydag ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig yn galluogi staff ar draws y sectorau i rannu eu harbenigedd ac arsylwi arfer dda. Er enghraifft, mae ymweliadau ag ysgolion eraill wedi helpu staff yn Ysgol Maes-y-Coed i ddatblygu eu cwricwlwm uwchradd. Mae staff yn Ysgol Maes-y-Coed yn darparu cyngor a hyfforddiant gwerthfawr ar gyfer cydweithwyr prif ffrwd, er enghraifft mewn perthynas â strategaethau ar gyfer cynorthwyo disgyblion sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'r ysgol yn darparu gwasanaeth allymestyn hynod effeithiol ar gyfer disgyblion sydd â nam amlsynhwyraidd ar draws yr ardal.

Mae disgyblion o ysgolion cynradd lleol yn elwa ar ymweliadau â'r ysgol, lle maent yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau ochr yn ochr â'u cyfoedion. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion o Ysgol Maes-y-Coed fynychu ysgolion prif ffrwd lleol wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae cysylltiadau â cholegau lleol yn gwella profiadau dysgu disgyblion. Mae disgyblion yn ennill medrau pwysig ac yn magu hyder sy'n eu helpu pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Mae'r bartneriaeth â rhieni yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae staff yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni a gofalwyr trwy ddyddiaduron cartref-ysgol ac adroddiadau manwl. Mae'r ysgol yn darparu hyfforddiant gwerthfawr ar gyfer rhieni a gofalwyr. Mae hyn yn sicrhau parhad mewn dysgu a gofal ar draws pob lleoliad.

Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau cadarnhaol â busnesau lleol ac maent yn cynnig profiadau gwaith priodol i ddisgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ystod eang o staff sydd â chymwysterau da, sy'n meddu ar ddealltwriaeth glir o anghenion y disgyblion. Caiff staff eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu a lles disgyblion. Caiff athrawon a chynorthwywyr addysgu gyfleoedd rheolaidd i gynyddu eu harbenigedd trwy fynychu hyfforddiant perthnasol a dilyn cymwysterau arbenigol. Caiff athrawon amser priodol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Ceir ystod dda iawn o adnoddau o ansawdd uchel a ddefnyddir yn dda i gefnogi profiadau dysgu disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r bwrsar yn gweithio'n effeithiol gyda'r corff llywodraethol i fonitro cyllideb yr ysgol. Mae gwariant wedi'i gysylltu'n ofalus â blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol.

Yng ngoleuni'r deilliannau a'r ddarpariaeth dda, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur arbennig (cyffredinol)

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 32 | 28 | 0 | 4 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 88% | 0% | 12% | |
| | | 94% | 2% | 3% | |
| The school deals well with any bullying. | 30 | 22 | 0 | 8 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 73% | 0% | 27% | |
| | | 84% | 7% | 9% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 32 | 25 | 2 | 5 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 78% | 6% | 16% | |
| | | 92% | 3% | 5% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 32 | 28 | 0 | 4 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 88% | 0% | 12% | |
| | | 93% | 3% | 4% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 32 | 27 | 2 | 3 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 84% | 6% | 9% | |
| | | 91% | 6% | 3% | |
| I am doing well at school | 32 | 26 | 3 | 3 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 81% | 9% | 9% | |
| | | 92% | 5% | 3% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 32 | 28 | 1 | 3 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 88% | 3% | 9% | |
| | | 97% | 1% | 2% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 32 | 27 | 0 | 5 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 84% | 0% | 16% | |
| | | 94% | 2% | 4% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 29 | 19 | 4 | 6 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 66% | 14% | 21% | |
| | | 68% | 20% | 12% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 31 | 23 | 0 | 8 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 74% | 0% | 26% | |
| | | 91% | 4% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 31 | 22 | 3 | 6 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 71% | 10% | 19% | |
| | | 81% | 13% | 6% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 32 | 28 | 0 | 4 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 88% | 0% | 12% | |
| | | 86% | 10% | 4% | |

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Mae’n dynodi’r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don’t know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 26 | 21 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 77% | 21% | 1% | 1% | | |
| My child likes this school. | 26 | 22 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 78% | 21% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 26 | 20 | 5 | 0 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 77% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 79% | 20% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 26 | 21 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 30% | 2% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 26 | 18 | 6 | 0 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 69% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 34% | 3% | 0% | | |
| Teaching is good. | 26 | 21 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 74% | 23% | 1% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 26 | 21 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 29% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 25 | 18 | 5 | 0 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 72% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 30% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 26 | 20 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 74% | 23% | 1% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 26 | 18 | 7 | 0 | 1 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 69% | 27% | 0% | 4% | | |
| | | 68% | 27% | 1% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 26 | 21 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 75% | 22% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 26 | 21 | 3 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 81% | 12% | 8% | 0% | | |
| | | 71% | 25% | 2% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 26 | 19 | 6 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 73% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 28% | 3% | 1% | | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 25 | 18 | 3 | 0 | 0 | 4 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 72% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 76% | 20% | 2% | 1% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 26 | 20 | 6 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 33% | 3% | 1% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 26 | 21 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 81% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 3 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 33% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 40% | 30% | 7% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 70% | 27% | 1% | 0% | | |
| The school is well run. | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 75% | 22% | 1% | 1% | | |

# Atodiad 2

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Mr William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Tîm |
| Mrs Andrea Louise Davies | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Carol Lorraine Edwards | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Helen Glover | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLl**:  anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**:  anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd

**ADP**:  anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**:  anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**:  Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy’n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**:  adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**:  Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**:  Cod Ymarfer

**NAS**:  nam amlsynhwyraidd

**NC**:  nam ar y clyw

**NG**:  nam ar y golwg